# Cronfeydd Dŵr Eiconaidd Caerdydd Yn Croesawu Nofio Dŵr Agored A Llogi Rhwyf-Fyrddau Nôl

**4 Medi 2023**

Mae Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien wedi cael mis cyntaf bendigedig ers iddynt agor, gyda miloedd o ymwelwyr yn mwynhau'r ganolfan ymwelwyr, mynd am dro a'r chwaraeon dŵr oedd ar gael.

Bu angen atal rhai o'r gweithgareddau ym mis Gorffennaf yn dilyn amheuon am achos o gosfa'r nofiwr yn y dŵr. Roedd hyn yn siom aruthrol i lawer o ymwelwyr, a hoffai Dŵr Cymru ddiolch i bawb am eu hamynedd dros y mis diwethaf wrth i ni ymchwilio i'r peth.

Mae canlyniadau'r profion wedi cadarnhau bod ansawdd y dŵr yng Nghronfa Ddŵr Llanisien yn parhau i fod yn rhagorol yn ôl safonau bacteria dyfroedd ymdrochi mewndirol, ac nid oes unrhyw ordyfiant o algâu nac algâu gwyrddlas yn bresennol. Fodd bynnag, am nad oes prawf 'parod' ar gael ar gyfer y mwydyn microsgopaidd sy'n achosi cosfa'r nofiwr, mae partneriaid yng Nghanolfan Amgylchedd Cymru ym Mhrifysgol Bangor wedi bod yn datblygu un yn arbennig ar gyfer Dŵr Cymru.

Dywedodd yr Athro Davey Jones o Brifysgol Bangor, "Rydyn ni'n falch o fod y gweithio gyda Dŵr Cymru i ddatblygu system warchod a fydd yn caniatáu i ni ganfod yr organeb sy'n achosi cosfa'r nofiwr yn gynnar. Mae achosion o gosfa'r nofiwr i'w gweld yn cynyddu ar draws Ewrop, felly mae hon yn broblem sy'n dwysáu."

Mae Prifysgol Bangor wedi cynghori eu bod wedi canfod mwydyn microsgopaidd a allai achosi cosfa'r nofiwr. Pethau naturiol yw'r mwydod yma ac maen nhw'n fwy cyffredin dros fisoedd yr haf. Wrth i'r tymheredd ddisgyn, mae'r risg yn lleihau'n sylweddol hefyd.

Dywedodd Jack Bailey, y Rheolwr Gweithgareddau "Rydyn ni wedi cael cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac eraill; ac rydyn ni'n dilyn eu harweiniad yn ofalus. Wrth i ni ailagor ar gyfer nofio a llogi rhwyf-fyrddau, bydd gofyn i bobl wisgo siwt wlyb llawn a chap nofio rhag ofn. Mae'r cwrs nofio a'r man lansio wedi cael eu symud o'r dŵr bas i ddŵr oerach a dyfnach hefyd er mwyn helpu i leihau'r risg eto fyth."

Bydd sesiynau nofio dŵr agored a llogi rhwyf-fyrddau'n ailddechrau dydd Mercher, 6 Medi.

Mae sesiynau ar gael i'w bwcio ar lein, ynghyd â llu o weithgareddau dŵr eraill, gan gynnwys caiacio, hwylio a chanŵio. I'r rhai sydd am roi cynnig ar chwaraeon dŵr, mae sesiynau blasu 90 munud ar gael. https://lisvane-llanishen.com/cy/anturiaethau-dwr/.